Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## COVID-19: Rheoliadau presennol i aros am y tro a chyhoeddi cynllun tymor hir

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Cymru yn aros ar Lefel Rhybudd 0 am y dair wythnos nesaf, gyda'r rholiadau presennol yn aros mewn grym. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-2020-2

Mae'r rheoliadau presennol yn cynnwys:

- Y gofyniad cyfreithiol i gynnal asesiad risg coronafeirws a gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws
- Ei gwneud yn ofynnol i oedolion a phlant 11 oed a throsodd wisgo masgiau wyneb, oni bai eu bod wedi'u heithrio, ym mhob lleoliad manwerthu, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn lleoliadau iechyd a gofal

Mae'r canllawiau presennol ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, os bydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn aros yn sefydlog, y gallai'r holl fesurau cyfreithiol gael eu dileu o 28 Mawrth 2022 ymlaen.

Mae cynllun hir dymor hefyd wedi ei gyhoeddi sy'n amlinellu sut y gall Cymru fyw'n ddiogel gyda'r coronafeirws. Gellir gweld 'Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel' ar:

https://llyw.cymru/covid-19-cynllun-pontio-hirdymor-cymru-o-bandemig-i-endemig

## COVID-19: Potel 5 litr o gel diheintio dwylo am ddim

Mae gan Cyngor Gwynedd gyflenwad o ddiheintydd dwylo, sydd angen ei ddefnyddio cyn Medi 2022, ar gael i fusnesau lleol am ddim ar sail y cyntaf i'r felin. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cyflenwad, fydd yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor yn uniongyrchol i'ch busnes, cysylltwch â:

PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru

## AROLWG: Addysg a'r economi – HELPWCH NI I HELPU CHI!

Mae Cyngor Gwynedd am ddeall yn well eich anghenion sgiliau presennol ac at y dyfodol, a sut y gall ein Hysgolion Uwchradd lleol baratoi eu disgyblion i ddiwallu eich anghenion pan fyddant yn cwblhau eu haddysg. Helpwch, os gwelwch yn dda, drwy gymryd rhan mewn arolwg byr 5 munud, ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/7WP5YJS

## TRETH: Rheolau treth lleol newydd ar gyfer llety gwyliau o fis Ebrill 2023

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y meini prawf ar gyfer llety hunanarlwyo sy'n gymwys ar gyfer ardrethi busnes yn hytrach na threth y cyngor yn newid o fis Ebrill 2023. O fis Ebrill nesaf, i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes yn hytrach na threth y cyngor, bydd angen i eiddo fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod, a'i osod am o leiaf 182 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. I ddarllen y cyhoeddiad ewch i:

https://llyw.cymru/rheolau-treth-newydd-ar-gyfer-ail-gartrefi

## CYFLE: Busnes@LlandrilloMenai – Academi Ddigidol Werdd

Mae Busnes@LlandrilloMenai wedi lansio prosiect newydd arloesol sy'n darparu cymorth ymgynghori am ddim gan fentor arbenigol i helpu busnesau lleol i leihau eu hôl troed carbon a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/green-digital-academy

## TECH: Gweithdai Mawrth 'Dod yn Dref SMART'

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn

nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd. Bydd gweithdai ‘Dod yn Dref SMART’ yn cael eu cynnal ym mis Mawrth. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/o/trefi-smart-towns-cymru-33152432853

## DYSGU: Cyrsiau am ddim – MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu)

Prosiect dysgu seiliedig ar waith yw MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu), sy’n canolbwyntio ar fodiwlau hyfforddiant technegol i fynd i’r afael â phrinderau sgiliau a darparu’r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant i ffynnu mewn sector sy’n cael ei arwain gan wybodaeth. Am gyfnod cyfyngedig, hyd at 31 Mawrth 2022, maent yn gallu cynnig rhai o’u cyrsiau ar-lein AM DDIM. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.project-metal.co.uk/cy/cyrsiau

## AROLWG: Holiadur Helpu Adeiladu Dyfodol Cymru – OECD

Mae’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi cynhyrchu holiadur ar ddyfodol datblygu rhanbarthol yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth ac i gymryd rhan yn yr arolwg byr hwn (yn cau 9 Mawrth 2022), ewch i:

https://bit.ly/3pEqKca

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru